

Crynodeb Gwirio Ansawdd Ysbyty Llanymddyfri (Ward Llanymddyfri)

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ward Llanymddyfri fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae hon yn ward cleifion mewnol 16 gwely yn Ysbyty Llanymddyfri o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â staff y ward ar 15/03/2022 a chawsom wybodaeth a thystiolaeth ganddynt am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych yn sicrhau bod y perygl o heintiau'n cael ei asesu a'i reoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut ydych yn nodi a rheoli brigiadau o achosion o COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd yn effeithiol?
- Sut ydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut ydych yn sicrhau bod urddas cleifion yn cael ei gynnal?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut ydych yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad/archwiliad risg amgylcheddol diweddaraf
- Canlyniadau archwiliad diweddaraf ynglŷn â chwympiadau
- Canlyniadau archwiliad diweddaraf ynglŷn â niwed pwysu a niwed i feinwe

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o'r cwypmiadau diweddaraf a chanlyniadau diweddaraf yr archwiliadau niwed pwysu a niwed i'r meinwe ar gyfer y ward. Roedd yr holl archwiliadau yn gyflawn ac yn gyfredol.

Dywedodd staff wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Roedd y newidiadau yn cynnwys:

- Sicrhau bod digon o le rhwng pob gwely a'u bod dau fetr oddi wrth ei gilydd
- Gosod sticeri ymbellhau cymdeithasol ar y lloriau
- Symud cadeiriau o ardal fwyta'r staff i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol
- Dim ond un fynedfa, yn lle'r tair blaenorol
- Rhaid i bob aelod o staff fewngofnodi cyn mynd i mewn i'r ward.

Dywedwyd wrthym, oherwydd prinder staff eithafol, fod ysbyty Llanymddyfri wedi gorfod cau dros dro am ddau fis y llynedd ac uno ag Ysbyty Dyffryn Aman. Yn ystod y cyfnod hwn, caewyd un o'r cilfannau ar ward Llanymddyfri, er mwyn cynnig lle i unrhyw gleifion a oedd wedi cael prawf COVID-19 positif yn y dyfodol.

Er mwyn cynnal urddas cleifion, dywedodd staff wrthym fod llenni o amgylch yr holl welyau, a'u bod yn cael eu defnyddio bob amser wrth roi gofal personol. Anogir y cleifion i ddefnyddio'r ystafelloedd ymolchi, ond, os na allant wneud hynny, maent yn derbyn gofal personol wrth ochr eu gwely. Mae nifer o ystafelloedd ochr ar y ward y gellir eu defnyddio i gael sgysiau sensitif neu anodd gyda chleifion ac aelodau o'r teulu. Gall y cleifion hefyd gael eu nyrsio yn un o'r ystafelloedd ochr, yn hytrach nag yn y gilfan, os oes angen lefelau uwch o ofal arnynt.

Dywedodd staff wrthym fod pob claf yn cael mewnbwn gan dîm amlddisgyblaethol. Mae gan y ward hefyd ffisiotherapydd neilltuedig a therapydd galwedigaethol sy'n ymweld ac mae gan

bob claf gynllun codi a chario ar waith.

Dywedwyd wrthym hefyd fod pob claf yn cael cynnig cymorth diwylliannol fel rhan o'u cynllun gofal. Mae'r caplan cymunedol lleol yn gefnogol iawn a bydd yn ymweld â'r ward os gofynnir amdano, ac mae caplan ysbyty'r bwrdd iechyd ar gael hefyd. Os yw'r cleifion yn lleol ac yn mynychu eglwys leol, gall staff gysylltu ag offeiriaid lleol ar eu rhan, er bod COVID-19 wedi gwneud hyn yn anos.

Mae gan y ward nifer o declynnau iPad, y gallai'r cleifion eu defnyddio pryd bynnag yr hoffent gysylltu â'u perthnasau neu ofalwyr. Yn ôl y staff, mae'r rhain wedi cael eu defnyddio llai ers i ymweliadau cyfyngedig gael eu hailgyflwyno. Dywedodd y staff wrthym hefyd am y swyddog cyswllt teulu sy'n mynychu'r ward yn wythnosol i weld y cleifion a holi a hoffent gysylltu â'u perthnasau. Byddent yn cymryd pwysau oddi ar y staff nyrso trwy helpu i drefnu galwadau fideo ar gyfer y cleifion a chysylltu â'r teuluoedd.

Dywedodd y staff wrthym, oherwydd mai ward adsefydlu ydyw yn bennaf, bod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos, a bod teuluoedd bob amser yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn er mwyn gwella eu dealltwriaeth. Gwahoddir perthnasau a gofalwyr i fynychu'r cyfarfodydd hyn naill ai dros y ffôn neu drwy alwad fideo.

Dywedwyd wrthym fod mwyafrif y staff ar y ward yn siarad Cymraeg ac yn gwisgo'r bathodynau perthnasol i ddangos i'r cleifion eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae mwyafrif y taflenni gwybodaeth i gleifion yn ddwyieithog ac mae gan y ward hefyd fynediad at wasanaeth cyfieithu os oes angen.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi rheoli heintiau cyffredinol a pholisi penodol ynghylch COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Asesiad/archwiliad risg diweddaraf o ran rheoli heintiau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi rheoli heintiau cynhwysfawr a pholisi penodol ar gyfer COVID-19. Gwelsom hefyd ganlyniadau archwiliadau hylendid dwylo cyfredol a'r asesiad risg rheoli

heintiau diweddaraf.

Dywedodd y staff wrthym am y newidiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Disgwylir i bob aelod o staff wirio eu tymheredd cyn dechrau ar eu shifft a chynnal dau brawf llif unffordd bob wythnos. Mae gan y staff hefyd orsaf gwisgo a diosg¹ neilltuedig ac uwch-ymarferydd nyrsio dynodedig ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n cwblhau archwiliadau gwisgo dim yn is na'r penelin ac ymolchi dwylo bob mis. Mae archwiliadau gwisgo a diosg rheolaidd hefyd yn cael eu cwblhau a dywedwyd wrthym fod aelodau staff neilltuedig yn cwblhau gwiriad stoc wythnosol o gyfarpar diogelu personol.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn dilyn polisiau'r bwrdd iechyd yn agos o ran cadw pellter cymdeithasol, rheoli brigiad o achosion ac atal a rheoli heintiau. Mae unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i ganllawiau yn cael eu cyfathrebu i staff trwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol preifat, e-bost ac yn ystod trosglwyddo shifftiau. Fe'n hysbyswyd y gall staff hefyd gael mynediad at yr holl wybodaeth ac arweiniad gofynnol trwy'r fewnwyd.

Gwnaethom ofyn i staff sut y maent yn nodi ac yn rheoli COVID-19 yn effeithiol a throsglwyddiad nosocomiaidd ar y ward. Dywedodd y staff wrthym y byddai hynny'n rhoi gwybod i staff y ward am frigiadau o achosion o'r fath drwy siarad â'r staff ar shifft wyneb yn wyneb, yna rhaeadru'r wybodaeth i'r rhai nad ydynt ar shifft dros e-bost, grŵp cyfryngau cymdeithasol neu mewn nodiadau trosglwyddo. Rhoddodd y staff enghraifft o achosion norofeirws yn y gorffennol ar y ward, lle byddai'r claf a oedd wedi cael prawf positif yn cael ei ynysu a'i nyrsio mewn ystafell ochr lle bynnag y bo modd, neu'n cael ei nyrsio drwy rwystr² gyda'u gorsaf cyfarpar diogelu personol eu hunain.

Ar ôl y brigiad o achosion COVID-19 a arweiniodd at gau'r ysbyty dros dro, dywedodd staff wrthym y byddai cynlluniau gweithredu'n newid yn ddyddiol er mwyn gweld beth oedd yn gweithio ac i benderfynu ar y ffordd fwyaf diogel i ailagor yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cludo yn ôl i'r ward fesul dau nes bod yr holl welyau wedi'u llenwi. Roedd gan y staff hefyd fynedfa ac allanfa ddynodedig, a byddent yn newid i'w gwisg a chyfarpar diogelu personol unwaith roeddent ar y ward ac yn newid yn ôl cyn gadael. Yn ôl y staff, dim ond ar ôl swab COVID-19 negyddol mae cleifion yn cael eu derbyn ar ward bellach, ac yn ystod unrhyw frigiad o achosion yn y dyfodol, byddai cleifion sydd wedi cael prawf positif naill ai'n cael eu nyrsio yn un o'r ystafelloedd ochr neu yn y gilfan â wal o'i chwmpas.

Dywedodd y staff wrthym y byddai uwch-nyrsys yn ymweld â'r ward ar ôl y brigiad o achosion COVID-19 er mwyn tawelu meddwl staff y ward a rhannu gwersi a ddysgwyd. Anogwyd y staff i ddefnyddio gwasanaethau llesiant y bwrdd iechyd ac roedd gan yr ysbyty hefyd ddau hyrwyddwr llesiant wedi'u lleoli ar ward Llanymddyfri. Dywedwyd wrthym hefyd fod uwch-staff yn aml yn gweithio ar y ward pan oedd prinder staff. Gwnaethant ddisgrifio hyn fel

¹ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

² Ynysu claf â chlefyd heintus yn lleol er mwyn osgoi lledaeniad. Mae'r 'rhwyrstr' ar ffurf gynau, capiau, gorchuddion dros esgidiau, menig a masgiau sy'n cael eu gwisgo gan staff ac ymwelwyr cyn mynd at y claf a'u taflu cyn dychwelyd i'r amgylchedd arferol.

profiad buddiol gan eu bod yn cael cipolwg ar yr hyn yr oedd staff y ward yn ei wynebu o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff fod gan y ward ddiwylliant staffio da a chefnogol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut , yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Swyddi gwag presennol staff (a restrir yn ôl band)
- Salwch staff presennol (a restrir yn ôl band)
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol o hyfforddiant gorfodol (a restrir yn ôl pwnc unigol)
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad (a restrir yn ôl band)
- Polisi uwchgyfeirio
- Y polisi/proses gorfforaethol i sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o swyddi gwag presennol a lefelau salwch staff. Dywedodd y staff wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i lenwi bylchau yn rota staff shift nos. Ar adegau pan fo prinder nyrsys cofrestredig ar shift, dywedwyd wrthym y byddant yn ceisio ychwanegu at hyn gyda mwy o gynorthwywyr gofal iechyd, er mwyn rhyddhau'r nyrsys cofrestredig lle bynnag y bo modd.

Gwnaethom hefyd adolygu polisi a phroses uwchgyfeirio'r ward i sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Roedd y dogfennau hyn yn gyflawn ac yn gyfredol.

Gwnaeth ein hadolygiad o ddogfennau amlygu cydymffurfedd dda ymhlith y staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn aml yn mynd ar ddiwrnodau astudio, fodd bynnag, roedd COVID-19 yn gwneud hyn yn anos. Fodd bynnag, mae hyfforddiant yn dal i gael ei gynnal dros Microsoft Teams ac mae gan yr holl staff fynediad at y system hyfforddi ar-lein os ydynt yn dymuno cwblhau unrhyw gyrsiau ychwanegol. Dywedodd y staff wrthym, os yw aelod o staff yn dymuno mynd ar gwrs penodol, y byddant yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl i roi diwrnod astudio iddynt ar gyfer ei gwblhau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer yr holl gleifion ar y ward. Mae gan bob claf gynlluniau a nodau unigol ar waith ac mae cleifion i gyd yn cytuno i'r cynlluniau a roddwyd ar waith gan y therapydd galwedigaethol cyn iddynt gael eu gweithredu. Cawsom ein hysbysu am grŵp cydraddoldeb ac amrywiaeth y bwrdd iechyd a gall staff gysylltu â nhw os ydynt yn teimlo bod angen unrhyw gyngor neu gymorth ychwanegol arnynt.

Dywedwyd wrthym, pe bai angen trafodaeth ynghylch Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR), bydd meddygon naill ai'n cael y drafodaeth hon â chleifion mewn ystafell ochr yn breifat, neu wrth ochr eu gwely os ydynt yn rhy sâl i gael eu symud. Mae'r teuluoedd bob amser yn cael gwybod am y trafodaethau hyn a bydd y meddyg yn cael sgwrs gyda'r teulu os nad oes gan y claf alluedd. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gall meddygon teulu adolygu'r dogfennau hyn os yw'r claf yn gwella ac, felly, nad oes ei angen arnynt mwyach.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.